Geldards

Introduction

This Plan states how we will provide legal services to the public sector in a manner which is consistent with their statutory obligations under the Welsh Language Act 1993.

This Plan applies to our office in Cardiff.

General Principles

In acting for the public sector we will be providing services to the public in Wales on its behalf. We will do so in accordance with the principle that the Welsh and English languages should be treated on the basis of equality, so far as practicable and appropriate.

The policy is not necessarily the policy of other clients of the firm and the application of the policy across the firm (which includes offices in England) will need to take account of this. Within this context, however, we aim to develop a fully bilingual approach.

We aim for consistency in the standard of our services, and for services delivered in Welsh through our office in Cardiff to be of the same standard as services delivered entirely in English.

The person responsible for the implementation of the Plan is Partner, Huw Williams, in conjunction with the firm's Chief Executive.

Correspondence

We will ensure we are able to handle correspondence in Welsh.

- A letter written to us in Welsh will receive a reply in Welsh.
- We will observe any requirements which you notify to us regarding bodies or organisations which have expressed a preference for correspondence in Welsh or English only.
- Where a meeting or telephone conversation takes place in Welsh any subsequent correspondence will be in Welsh unless we know that the recipient would prefer correspondence to be conducted in English.

Cyflwyniad

Y mae'r Cynllun hwn yn egluro sut y byddwn yn darparu gwasanaethau cyfreithiol i'r sector gyhoeddus mewn modd sy'n gyson â'u dyletswyddau statudol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Gweithredir y Cynllun hwn yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Egwyddorion Cyffredinol

Wrth weithredu dros y sector gyhoeddus byddwn yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran y sector hon. Byddwn yn gweithredu yn unol â'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn briodol.

Nid ydym o reidrwydd yn gweithredu'r polisi hwn ar gyfer cleientau eraill Geldards LLP a bydd angen cydnabod hyn wrth weithredu'r polisi yn holl swyddfeydd y cwmni, sydd yn cynnwys swyddfeydd yn Lloegr. O fewn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, ein hamcan yw i ddatblygu polisi hollol ddwyieithog.

Byddwn yn gweithio i sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, ac i sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg drwy ein swyddfa yng Nghaerdydd o'r un safon â gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg.

Un o'n partneriaid, Huw Williams, fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun ar y cyd â Phrif Weithredwr Geldards LLP.

Gohebiaeth

Byddwn yn gofalu y gallwn ymdrin â gohebiaeth yn y Gymraeg.

- Bydd pob llythyr Cymraeg a dderbynnir gennym yn cael ei ateb yn y Gymraeg.
- Byddwn yn cadw at unrhyw ofynion yr ydym yn eu derbyn oddi wrthych ynglŷn â chyrff sydd yn dymuno gohebu yn y Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.
- Yn dilyn cyfarfod neu sgwrs ffôn yn y Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn yn y Gymraeg onibai ein bod yn gwybod ei bod yn well gan y sawl sy'n derbyn y llythyr ohebu yn Saesneg.



Telephone Calls

We will ensure we are able to handle calls in Welsh. The procedure for handling telephone calls takes account of the fact that the switchboards handle incoming calls for all the offices of the firm which are routed to the appropriate person by an internal connection. This means that a caller from England wishing to speak to someone in the Derby or Nottingham offices can find their call being taken by the Cardiff switchboard.

- The firm's usual telephone greeting is "Geldards". If it is clear that the caller wishes to speak Welsh, the receptionist will try to connect the call to a Welsh speaking lawyer or secretary, to deal with the call or, if appropriate, transfer it to a Welsh speaker in a relevant specialist team. If no Welsh speaker is available and able to deal with the enquiry, the caller will be given the choice of a Welsh speaker phoning back or continuing the call in English.

- We have a direct dial facility and staff have the discretion as to whether to give the direct number to persons with whom they are dealing. Where a Welsh speaker is handling a matter in Welsh direct dialled calls will be in Welsh. If the member of staff dealing with the matter is not available the person picking up the call will deal with it in Welsh or transfer it to a Welsh speaking colleague. Again, if no-one is available, the caller will be given the choice of a Welsh speaker phoning back, or continuing the call in English.

- There may be times, however, when there is no-one available who can answer a query fully or adequately in Welsh. In legal transactions or proceedings the subject matter may be complex, specialised, or both. In such circumstances the lawyer handling the matter will have the discretion to ask the caller to deal with the matter in English or put the matter in writing in order that a considered reply can be sent in Welsh.

- Welsh speaking members of staff at the Cardiff office should record a bilingual greeting on their voice mails to let callers know immediately they are speaking to someone who understands Welsh.

Galwadau ffôn

Byddwn yn sicrhau y gallwn ymdrin â galwadau yn y Gymraeg. Mae'r drefn ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn yn cymryd ystyriaeth o'r ffaith fod ein switsfyrddau yn derbyn galwadau ar gyfer holl swyddfeydd y cwmni cyn eu cyfeirio i'r person priodol drwy gysylltiad mewnol. Y mae hyn yn golygu y gallai galwad gan berson o Loegr sy'n dymuno siarad â rhywun yn ein swyddfeydd yn Derby neu yn Nottingham gael ei derbyn gan y switsfwrdd yng Nghaerdydd.

- Cyfarchiad ffôn arferol y cwmni yw "Geldards". Pan fydd yn amlwg y dymuna'r sawl sy'n galw siarad Cymraeg, bydd y derbynydd yn ceisio ei gysylltu â chyfreithiwr neu ysgrifenyddes sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad neu, lle y bo'n briodol, drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg mewn adran arbenigol berthnasol. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis rhwng gofyn i siaradwr Cymraeg ffonio yn ôl neu barhau â'r alwad drwy gyfrwng y Saesneg.

- Y mae modd galw cyfreithwyr yn uniongyrchol, a mater i'r cyfreithiwr unigol yw penderfynu a yw am roi ei rif uniongyrchol i bobl y mae yn delio â hwy. Pan fo siaradwr Cymraeg yn delio â mater yn y Gymraeg, bydd galwadau ffôn uniongyrchol yn y Gymraeg. Os nad yw'r aelod o'r staff sy'n trafod y mater ar gael, bydd y sawl sy'n ateb yr alwad ffôn naill ai yn delio â'r alwad yn Gymraeg neu'n trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg. Unwaith eto, os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis rhwng gofyn i siaradwr Cymraeg ffonio yn ôl neu barhau â'r alwad drwy gyfrwng y Saesneg.

- Ar brydiau, fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd unrhyw un ar gael a all ddelio â phroblem yn llawn neu yn ddigonol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn trafodion neu achosion cyfreithiol, gall y pwnc dan sylw fod yn gymhleth ac/neu yn fater arbenigol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall y cyfreithiwr ofyn i'r galwr naill ai drafod y mater yn Saesneg neu ysgrifennu atom fel y gallwn roi ymateb yn y Gymraeg ar ôl cael cyfle i ystyried.

- Dylai aelodau o'r staff yn Nghaerdydd sy'n siarad Cymraeg recordio cyfarchiad dwyieithog ar eu periannau ateb er mwyn gadael i alwyr wybod ar unwaith eu bod yn siarad â rhywun sy'n deall Cymraeg.

Allocation of Casework

We have Welsh speaking lawyers in most of our practice areas. The ability to negotiate complex transactions and prepare legal documents in Welsh requires a high degree of linguistic ability. Accordingly our procedures provide for Welsh speaking lawyers' abilities to transact legal business to be categorised as:-

- Basic – the ability to give Welsh greetings and to carry on an everyday conversation in Welsh.
- Moderate – the ability to discuss technical points in Welsh and conduct straightforward correspondence.
- Expert – the ability to discuss and draft complex legal documents in Welsh.

The lawyers able to undertake business in Welsh are identified by reference to the above grading. Only lawyers regarded as expert will be authorised to sign off and complete transactions conducted in Welsh.

Arrangements for Meetings

When we are aware that a person involved in a case or a transaction wishes to speak Welsh they will be welcome to hold meetings in Welsh with the lawyer allocated to conduct the matter in Welsh, subject only to any necessity to have recourse to English in the interests of accuracy where issues are complex or specialised.

Where we know in advance that a meeting will be taking place involving individuals who we know prefer to use Welsh and others who will be speaking in English, we will notify the client so that the relevant officials can consider whether the meeting should be held with interpretation facilities.

Visits by members of the public to our offices in connection with our services to the public sector will generally be by appointment.

When a Welsh speaking receptionist is not available, another Welsh speaking member of staff will be called to meet and escort visitors within the offices.

Dosbarthu Gwaith

Mae cyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y rhan fwyaf o'r meysydd yr ydym yn ymdrin â hwy. Y mae angen gallu ieithyddol o safon uchel er mwyn trafod telerau gweithrediadau cymhleth a pharatoi dogfennau cyfreithiol yn y Gymraeg. Yn ein gweithdrefnau, categoreiddir gallu cyfreithwyr sy'n siarad Cymraeg i drafod busnes cyfreithiol fel a ganlyn:

- Sylfaenol – yn gallu cyfarch yn y Gymraeg a chynnal sgwrs bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canolig – yn gallu trafod pwyntiau technegol yn y Gymraeg a delio â gohebiaeth nad yw'n or-gymhleth.
- Arbenigol – yn gallu trafod a pharatoi dogfennau cyfreithiol cymhleth yn y Gymraeg.

Dynodir y cyfreithwyr a all drafod busnes yn y Gymraeg yn unol â'r categorïau uchod. Dim ond cyfreithwyr o allu ieithyddol arbenigol a fydd yn cael arwyddo dogfennau a chwblhau trafodion yn y Gymraeg.

Trefniadau ar gyfer Cyfarfodydd

Pan yr ydym yn ymwybodol bod rhywun sy'n ymwneud ag achos neu weithred yn dymuno siarad Cymraeg, bydd croeso iddynt gynnal cyfarfodydd yn y Gymraeg gyda'r cyfreithwr sydd yn delio â'r mater yn y Gymraeg, heblaw pan y bydd yn angenrheidiol troi i'r Saesneg er mwyn sicrhau cywirdeb os yw'r cwestiwn yn gymhleth neu'n arbenigol.

Lle'r ydym yn gwybod ymlaen llaw y cynhelir cyfarfod rhwng rhai unigolion sydd yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg ac eraill a fydd yn siarad yn Saesneg, byddwn yn hysbysu y cleient er mwyn i'r swyddogion perthnasol ystyried a ddylid darparu cyfleusterau cyfieithu.

Bydd ymweliadau gan aelodau o'r cyhoedd â'n swyddfeydd yn ymwneud â'n gwasanaethau i'r sector gyhoeddus drwy apwyntiad yn gyffredinol.

Pan nad oes derbynydd sy'n siarad Cymraeg ar gael, fe fyddwn yn galw aelod arall o'r staff sydd yn siarad Cymraeg er mwyn derbyn ymwelwyr a'u tywys o fewn y swyddfa.



Implementing the Scheme

We recognise that an adequate number of Welsh speaking lawyers and support staff are required for the delivery of the services to the public sector in Wales. We have lawyers across most of our practice areas who are capable of delivering legal services in Welsh. This will be kept under review and the ability to speak Welsh and to undertake legal work in Welsh will be relevant in filling vacancies at the Cardiff office in accordance with our own Equal Opportunities Policy.

Within our internal training programme we have identified the following training priorities:

- improving the working Welsh of staff who already have a degree of fluency in spoken Welsh to a level where they can conduct legal work in Welsh. This can only take place over time given the specialisation of the subject matter of legal work and will depend on wider initiatives within the legal profession in Wales to take this forward;

- assisting reception and secretarial staff to handle straightforward enquiries from the public in Welsh, through accessing appropriate courses.

Monitoring The Scheme

We will monitor our performance in implementing and operating this scheme as part of our quality procedures.

Gweithredu'r Cynllun

Yr ydym yn cydnabod bod angen nifer ddigonol o gyfreithwyr a staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn cyflenwi gwasanaethau i'r sector gyhoeddus yng Nghymru. Mae gennyn gyfreithwyr yn y rhan fwyaf o'n hadrannau sy'n medru cyflenwi gwasanaethau cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa'n gyson, a bydd gallu siarad Cymraeg a gallu gwneud gwaith cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgiliau perthnasol wrth benodi staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd yn unol â'n Polisi Cyfleoedd Cyfartal.

Yr ydym yn bwriadu targedu'r blaenoriethau canlynol fel rhan o'n cynllun hyfforddi mewnol:

- Gwella safon iaith staff sydd yn siarad Cymraeg yn eithaf rhugl yn barod fel eu bod yn gallu gwneud gwaith cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cymryd amser gan y gall y materion yr ymdrinir â hwy wrth wneud gwaith cyfreithiol fod yn arbenigol, a bydd angen cynlluniau ehangach o fewn y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru er mwyn datblygu'r sgiliau hyn.

- Helpu staff y dderbynfa a staff ysgrifenyddol i ddelio ag ymholiadau syml gan y cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg drwy eu gyrru ar gyrsiau addas.

Arolygu'r Cynllun

Byddwn yn cadw golwg ar y modd yr ydym yn gweithredu'r cynllun hwn fel rhan o'n gweithdrefnau ansawdd.